**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Ar yr un donfedd - Ymchwiliad i Radio yng Nghymru**

---

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r argymhellion yn yr adroddiad.

**Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ailasesu sut mae'n mynd ati i ymgysylltu â DCMS dros ddadreoleiddio radio masnachol a dylai geisio llunio pwerau a dyletswyddau Ofcom yn ogystal â cheisio dylanwadu ar y materion y mae'n eu hystyried.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu a thrafod â DCMS pan fo hynny'n briodol mewn perthynas â nifer o faterion sy'n ymwneud â darlledu, gan gynnwys dadreoleiddio radio masnachol.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n amlinellu'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ofcom, yn ymrwymo Ofcom i ymgynghori â Llywodraeth Cymru a phwyllgorau priodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ei gynllun blynyddol drafft, ac mae hefyd yn pennu'r broses i'w dilyn gan Weinidogion Cymru wrth iddynt benodi aelod dros Gymru i Fwrdd Ofcom. Mae hon yn swydd newydd, ac mae'r broses recriwtio ar ei chyfer wrthi'n cael ei chynnal am y tro cyntaf ar hyn o bryd. Bydd y penodiad yn cael ei gadarnhau yn y dyfodol agos. Mae'r Memorandwm yn cadarnhau hefyd fod Ofcom yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Goblygiadau ariannol –** Dim

**Argymhelliad 2. Dylai DCMS ystyried cyflwyno gofyniad rheoleiddiol i orsafoedd radio masnachol yng Nghymru adrodd ar newyddion Cymreig ei natur, yn ogystal â newyddion lleol a'r DU fel rhan o'i diwygiadau ar gyfer radio masnachol.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mae'n hanfodol bod gorsafoedd radio masnachol yng Nghymru yn adrodd ar newyddion Cymreig ei natur, a byddwn yn parhau i godi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom, fel y bo'n briodol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 3. Dylai Ofcom archwilio cystadleuaeth yn y diwydiant radio masnachol yng Nghymru i weld sut y gellir annog mwy o amrywiaeth a pherchenogaeth yn y farchnad.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mae yna ddealltwriaeth dda o'r ffaith nad oes amrywiaeth eang yn sector y cyfryngau yng Nghymru; rydym yn cytuno y dylid annog rhagor o amrywiaeth yn y farchnad a rhagor o amrywiaeth hefyd o ran perchenogaeth, ac y gallai hynny gael effaith gadarnhaol yn hynny o beth. Byddem yn hapus i drafod y mater hwn yn uniongyrchol ag Ofcom yn ystod unrhyw adolygiad y bydd yn dewis ei gynnal.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell, o ran Cymru, y dylai Ofcom gadw'r "ardaloedd cymeradwy" cyfredol a'r nifer gofynnol o oriau sydd wedi'u gwneud yn lleol y dylai gorsafoedd radio masnachol lleol eu darparu.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mater i Ofcom yw hwn, ond mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrth Ofcom a Llywodraeth y DU na fyddem yn dymuno gweld y rheolau cyfredol ar ddarpariaeth leol ar radio masnachol yn cael eu llacio ymhellach nac yn cael eu dileu. Mae'n hanfodol bod lefel briodol o ddarpariaeth leol, yn benodol felly o ran newyddion lleol. Mae hynny hyd yn oed yn bwysicach yng Nghymru o ystyried gwendid y cyfryngau print yng Nghymru a'r diffyg sylw i faterion Cymreig ym mhapurau newyddion y DU.

Yn ogystal, fel y dywedasom wrth y Pwyllgor yn ein tystiolaeth, pan fydd trwyddedau teledu a radio yn cael eu dyfarnu neu'n cael eu hadolygu ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru, dylid rhoi ystyriaeth briodol i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun y nod sydd gan Lywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dylid gwneud hynny drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau'n cael eu darlledu yn Gymraeg, ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo. Dylai amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fod yn un o'r targedau a bennir wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei gwerthusiad o'r gronfa Radio Cymunedol ac, gan dynnu ar unrhyw wersi a ddysgwyd, ystyried cyflwyno cronfa newydd, gan ystyried unrhyw synergeddau rhwng Radio Cymunedol a darparwyr newyddion hyperleol eraill.**

**Ymateb: Derbyn**

Cynhaliwyd adolygiad o Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru ac mae i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru[1]. Cafodd ei anfon ymlaen at Ysgrifenyddiaeth y

[1] https://gov.wales/docs/drah/publications/120724commradiofundreviewcy.pdf

Pwyllgor ar ôl i gais gael ei wneud amdano yn ystod sesiwn dystiolaeth y Gweinidog ar 26 Ebrill 2018.

Byddai angen inni hefyd ystyried blaenoriaethau eraill y mae angen rhoi sylw iddynt wrth inni ystyried unrhyw gynigion i ailsefydlu'r Gronfa. Byddai angen cyflwyno achos cryf i ddangos y byddai Cronfa newydd yn ychwanegu cryn werth o ran y radio cymunedol a fyddai ar gael ar draws Cymru, a hefyd o ran yr effaith y byddai'n ei chael.

**Argymhelliad 6. Dylai Ofcom wneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod y Gronfa Radio Cymunedol y mae'n gweithredu ar ran DCMS ar gael yng Nghymru.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mater i Ofcom yw hwn. Wedi dweud hynny, gwyddwn fod swyddogion Ofcom yn mynd ati'n rheolaidd eisoes i hyrwyddo'i gronfa ymhlith gorsafoedd radio cymunedol perthnasol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddarlledu mwy o hysbysebion y llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibiliadau o ddefnyddio mwy ar y sector.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae radio yn sianel allweddol yn aml ar gyfer ein hymgyrchoedd; gan ddibynnu ar amcanion penodol yr ymgyrch, mae'n bosibl y bydd gorsafoedd radio cymunedol yn cael eu hargymell. Gŵyr Llywodraeth Cymru fod y sector radio cymunedol yn wynebu heriau o ran meithrin cysylltiadau masnachol ag asiantaethau. Yn eu plith y mae pa mor weladwy yw'r gorsafoedd radio eu hunain, yr angen am un pwynt cyswllt sy'n cael ei gydgysylltu ar draws gorsafoedd cymunedol lle y gellir prynu gofod hysbysebu ac, yn aml, diffyg data cadarn am gynulleidfaoedd drwy RAJAR. Mae asiantaethau, felly, yn chwilio am ffyrdd eraill o ymwneud â'r sector radio cymunedol. Er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth am ymgyrch pa fo'n cael ei lansio a gofyn am gefnogaeth ar yr awyr − dyna a wnaed ar gyfer yr ymgyrch ddiweddar *Magu plant. Rhowch amser iddo*. Rydym yn cydnabod nad yw'r sector yn manteisio i'r eithaf ar ffrwd refeniw posibl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ei hadroddiad ei hun ar faint o gynulleidfa y mae'r sector yn ei chyrraedd er mwyn cadarnhau'r ffigurau. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ailanfon at asiantaethau ar restr Llywodraeth Cymru, a bydd asiantaethau a staff cyfathrebu yn Llywodraeth Cymru yn cael eu hatgoffa am yr angen i ystyried ffyrdd o feithrin cysylltiadau â gorsafoedd radio cymunedol, fel y bo'n briodol, er mwyn gweithio ar ymgyrchoedd. Mae hyn yn cynnwys meddwl mewn ffordd fwy creadigol am sut y gall y sector radio cymunedol fod yn gysylltiedig â gwaith ymgyrchu y telir amdano.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.  Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth y DU ystyried sut mae ei chyfyngiadau ariannol cyfredol ar Radio Cymunedol yn gweithio'n ymarferol ac a yw rhai o'r cyfyngiadau presennol yn cyfyngu'n ddiangen ar ddatblygiad y sector yng Nghymru.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mater i Lywodraeth y DU yw hwn, ond mae'n hollbwysig nad yw'r cyfyngiadau ariannol presennol yn llesteirio datblygiad y sector yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae'r cyfyngiadau'n bodoli'n rhannol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn aros yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac yn hoelio sylw ar y cymunedau hynny – fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod yn ei adroddiad. Felly, byddai'n rhad ystyried unrhyw newidiadau'n ofalus.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 9. Dylai'r sector Radio Cymunedol yng Nghymru ystyried y ffordd orau o fesur llwyddiant, gan gynnwys nifer y gwrandawyr a ffigurau RAJAR. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Pwyllgor yn bwriadu trefnu symposiwm ar gyfer gorsafoedd Radio Cymunedol yng Nghymru i roi cyfle iddynt ddod at ei gilydd ac ystyried ystod o faterion cyffredin, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau ffigurau RAJAR.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Rydym yn croesawu bwriad y Pwyllgor i drefnu symposiwm ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol yng Nghymru i drafod nifer o faterion, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau ffigurau RAJAR.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 10. Dylai'r BBC fynd ar drywydd rhagor o opsiynau sydd ar gael iddo er mwyn darparu trefniant eithrio ar wasanaethau radio rhwydwaith i ddarlledu newyddion o Gymru a dylai flaenoriaethu buddsoddiad i helpu i oresgyn y problemau technegol sy'n atal hyn ar hyn o bryd.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mater i'r BBC yw hwn. Rydym yn cydnabod y rôl hollbwysig sy'n cael ei chwarae gan y BBC o ran darparu newyddion am Gymru ac am bobl Cymru. Gallai trefniant eithrio ar Radio 2 a Radio 1 er mwyn darlledu newyddion o Gymru fod yn ffordd o sicrhau bod rhagor o bobl yng Nghymru yn cael newyddion am Gymru, ond rydym yn nodi ac yn derbyn yr esboniad a roddwyd i'r Pwyllgor gan BBC Cymru Wales nad yw hynny'n bosibl ar hyn o bryd am resymau technegol. Rydym yn cytuno y dylid cadw golwg ar

hyn wrth i blatfformau darlledu, a'r dechnoleg sy'n sail iddynt, esblygu. Os caiff ateb ei ddatblygu, dylid ystyried ei ddefnyddio cyn gynted â phosibl.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 11. Dylai'r BBC osod targedau mwy heriol i'w hun ar gyfer cynnwys radio rhwydwaith y DU o Gymru. Dylai BBC Cymru Wales fod yn fwy pendant wrth hyrwyddo straeon newyddion o Gymru a cherddoriaeth o Gymru ar gyfer rhwydweithiau'r DU.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mater i'r BBC yw hwn, ond rydym yn cytuno â'r cynigion hyn, ac adlewyrchwyd hynny yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor. Yn yr un modd ag yn achos teledu, rydym yn pryderu bod Cymru, yn benodol, yn parhau i gael ei thangynrychioli ar brif rwydweithiau radio'r DU. Ymddengys mai ychydig iawn o'r rhaglenni a gomisiynir gan y BBC ar gyfer radio rhwydwaith y DU sy'n dod o Gymru. Hoffem weld mwy o gyfraniad i'r rhwydwaith radio yn cael ei gomisiynu oddi wrth BBC Cymru Wales. Byddai hynny'n gwbl gydnaws â dyletswyddau cryfach y BBC i Gymru sy'n cael eu nodi yn Siarter y BBC.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 12. Yng ngoleuni'r diffyg her i'r BBC yn nhrwydded weithredu newydd Ofcom, dylai'r BBC drin yr amodau rheoleiddio hyn fel llawr yn hytrach na nenfwd, a cheisio cynyddu:**

- **nifer y rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar Radio Wales a Radio Cymru; a**
- **nifer y cynyrchiadau radio rhwydwaith a wneir yng Nghymru.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mater i'r BBC yw hwn, ond rydym yn cytuno â'r cynigion hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir ei bod yn hanfodol bod y BBC yn cyflawni dros gyfod nesaf y Siarter o ran y mandad cryfach sydd ganddo ac o ran ei ddyletswyddau i bobl Cymru, yn ogystal â'r rheini sydd ganddo i genhedloedd a rhanbarthau eraill y DU. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni radio'r BBC.

Yn ein tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, gwnaethom nodi ein bod, yn ymateb manwl Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017 i ymgynghoriad Ofcom am ei Drwydded Weithredu gyntaf ar gyfer y BBC, wedi codi nifer o bryderon am y Drwydded ddrafft, gan annog Ofcom i fynd i'r afael â nhw er mwyn creu Trwydded derfynol a fyddai'n addas i'r diben. Roedd yn siom na chafodd y Drwydded ei diwygio i adlewyrchu nifer o welliannau pwysig a awgrymwyd ac a esboniwyd yn fanwl gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i'r ymgynghoriad.

Byddwn yn parhau i gydweithio mewn ffordd adeiladol ag Ofcom i sicrhau bod y BBC yn cael ei ddwyn i gyfrif yn briodol o ran cyflenwi ei wasanaethau. Bydd Llywodraeth

Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ill dau yn monitro'n agos y cynnydd a wneir gan y BBC mewn perthynas â gofynion y Drwydded Gwasanaeth.

Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan Ofcom y bydd y Drwydded Weithredu a'r mesurau perfformiad yn datblygu dros amser a'i fod yn disgwyl i'r BBC barhau i wella o ran sut y mae'n cyflawni yn unol â'i gylch gwaith.

Rydym yn disgwyl i'r Aelod newydd o Fwrdd Ofcom dros Gymru roi blaenoriaeth i symud y materion hyn yn eu blaen.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 13. Dylai Ofcom ddefnyddio ei ddyletswyddau newydd o sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael eu "gwasanaethu'n dda" gyda "... mwy o wasanaethau ac allbwn unigryw" i sicrhau bod mwy o gerddoriaeth gan artistiaid o Gymru yn cael ei chwarae ar y radio yng Nghymru.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mater i Ofcom yw hwn, ond mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi artistiaid o Gymru ac mae'n awyddus i'w gweld yn cael mwy o sylw ar draws y sector radio cyhoeddus a'r sector radio masnachol, yng Nghymru ei hun a hefyd ledled y DU.

Roedd cyfraniad uniongyrchol Llywodraeth Cymru i'r broses o adolygu Siarter y BBC yn hollbwysig, ac mae'n rhoi diben cyhoeddus cryfach o lawer i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol Cymru a chenhedloedd a rhanbarthau eraill y DU. Wrth wneud hynny, rhaid iddo bellach gefnogi economïau creadigol ar draws y DU hefyd – gan gynnwys y diwydiannau creadigol ffyniannus sydd gennym yma yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y gallwn ddisgwyl i fwy o gynnwys a rhaglenni, a gwell cynnwys a rhaglenni, gael eu gwneud ar gyfer Cymru, am Gymru – ac yng Nghymru – ar draws gwasanaethau'r BBC. Rydym yn disgwyl, felly, mai un o ganlyniadau dyletswyddau newydd Ofcom yn y maes hwn yw y bydd rhagor o gerddoriaeth gan artistiaid o Gymru yn cael ei chwarae ar wasanaethau radio'r BBC, yng Nghymru ei hun ac ar draws y rhwydwaith.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 14. Ni ddylai DCMS wneud unrhyw benderfyniad ar y newid i ddigidol nes bod y diffyg cymharol o ddarpariaeth ddigidol yng Nghymru wedi'i wella.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno'n llwyr ac wedi pwysleisio'n gyson wrth DCMS na fyddem o blaid troi at radio digidol oni bai bod yna warant y byddai DAB ar gael i 97% o bobl Cymru o leiaf. Ni ddylai'r gwasanaeth DAB yng Nghymru fod yn waeth na'r gwasanaeth radio AM/FM sydd gennym ar hyn o bryd, a dylai fod ar gael mewn ardaloedd lle mai dim ond ar y sbectrwm AM y gellir derbyn y gorsafoedd radio cenedlaethol ar hyn o bryd.

Er bod y rhwydwaith DAB wedi gwella mewn rhai rhannau o Gymru, mae llawer o waith eto i'w wneud cyn y byddai'n briodol ystyried troi at radio digidol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bryderu, hyd yn oed pan fodlonir y meini prawf arfaethedig ar gyfer troi at radio digidol ar lefel y DU, ei bod yn sicr bron y byddai'r rhwydwaith DAB a fyddai ar gael yng Nghymru yn sylweddol is.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 15. Dylai Ofcom adolygu pryderon ynghylch cystadleuaeth sy'n deillio o'r ffaith fod gan Arqiva fonopoli i bob pwrpas dros drawsyrru yng Nghymru.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn.**

Mater i Ofcom yw hwn, ond byddem yn cytuno y byddai'n werth ystyried a yw costau trawsyrru yn anarferol o afresymol yng Nghymru – ac, od ydynt, beth y gellid ei wneud i fynd i'r afael â hynny.

**Goblygiadau ariannol** – Dim

**Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ei strategaeth ar gyfer sicrhau bod Radio yng Nghymru yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru ei hun.**

**Ymateb: Derbyn**

Cafodd pwysigrwydd y sector radio yng Nghymru ei adlewyrchu'n glir yn nhystiolaeth ysgrifenedig a llafar Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddatganoli polisïau darlledu yn glir ac nid yw wedi newid. Mewn byd digidol sy'n esblygu'n gyflym, a lle y mae'r darlledwyr yn chwarae rôl hanfodol o ran creu dinasyddiaeth ddiwylliannol gyffredin ar gyfer pobl ledled y DU, ni fyddai'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael ei chryfhau ar hyn o bryd drwy rannu'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddarlledu. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu mai dim ond i San Steffan y dylai darlledwyr a'r rheoleiddiwr fod yn atebol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gredu na ddylai darlledu nac elfennau o ddarlledu gael eu datganoli. Mae risgiau ariannol sylweddol yn gysylltiedig â datganoli darlledu oherwydd nad oes unrhyw sicrwydd y byddai cyllidebau'n cael eu trosglwyddo hefyd.

Rydym am wneud y sefydliadau darlledu yn fwy atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru.

Dylai'r modd y caiff strwythurau darlledu eu llywodraethu adlewyrchu realiti datganoli. Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn galed i sicrhau bod Siarter newydd y BBC yn

gorfodi'r BBC i gyflawni llawer mwy dros bobl Cymru, gan gynnwys rhoi mwy o rwymedigaethau arno o ran portreadu'r cenhedloedd a'r rhanbarthau, a chomisiynu oddi yno. Mae'r BBC bellach yn atebol mewn ffordd briodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Wrth inni baratoi i benodi'r aelod dros Gymru ar Fwrdd Ofcom am y tro cyntaf, rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau trefniadau tebyg ar gyfer y darlledwyr eraill, yn ogystal ag ar gyfer Ofcom ei hun.

**Goblygiadau ariannol** – Dim